Cofnodion Cyfarfod 8fed o Hydref 2013 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

YN BRESENNOL

Ken Brown
Lena Ashley
Pat Jones
Sarah Riley
Daniel Williams
Wynne Barton Swyddog Ariannol
Iestyn Harris
Louise Hughes
Nerys John
George Smith

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Hydref. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gorfod gohirio cyfarfod a Gareth Roberts ond gobeithir ei gynnal rhywdro'r mis hwn. Penderfynwyd cyfarfod a Gareth Roberts ar yr 22ain o'r mis am 7 yn yr hwyr yn y neuadd.

1.2 Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ynglŷn â noson agored Cartrefi Cymunedol Gwynedd lle awgrymwyd y byddai 4 tŷ a 2 byngalo yn cael eu hadeiladu yn y Wern. Cafwyd sgwrs ynglŷn â hyn a phenderfynwyd y byddai'r clerc yn anfon at CCG gyda'r sylwadau dylid gwneud defnydd uchafswm o'r cyfle i godi fflatiau ar gyfer anghenion lleol.

1.3 Diolchodd y Cadeirydd i Sarah Riley, Miss Lena Ashley, Iestyn Harris a Daniel Williams a Dave White am eu hymdrechion a Safle Moriah. Roedd y Safle angen ei gynnal yn enwedig y llechi a'r planhigion. Gan fod y Clwb Garddio bellach wedi gorffen bydd rhaid i wirfoddolwyr gynnal y safle.

Ymddiheuriadau Siân Gwenllïan, Bethan Jones, Hywel V Jones

2.0 DATGAN DIDDORDEB

2.1 Eglurodd y Clerc ei bod wedi bod mewn hyfforddiant Safonau ac o fis Tachwedd ymlaen bydd rhaid i gynghorwyr ddatgan diddordeb o dan yr eitem hon. Hefyd bydd rhaid i gynghorwyr sydd yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa gyflwyno taflen datgan diddordeb yn fisol. Bydd taflen datgan diddordeb yn cael eu hanfon gyda phapurau'r cyfarfodydd misol.

3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 10fed o Fedi 2013.

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

4.0 MATERION YN CODI

4.1 **Golau Stryd Cerrig yr Afon** - Cyflwynwyd llythyr Cerrig yr Afon ynglŷn â chyfraniad y Cyngor. Nid oedd gwybodaeth ynglŷn â chostau codi dwy lamp i law, felly penderfynwyd cadw'r eitem hyd nes oedd yr holl wybodaeth wedi ei dderbyn.

4.2 **Cerdded a Darganfod** - cafwyd sgwrs ynglŷn â phwy ddylai fod yn rhan o'r grŵp, penderfynwyd bod cyfansoddiad y grŵp i gynnwys pobl a fyddai â diddordeb.

4.3 **Llwybr Rowen** - cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut y gellir gwella'r llwybr, gan fod y llwybr yn arwain i Fae Rowen gofynnwyd i'r Clerc Gysylltu â'r Harbwr Feistr i wneud ymholiadau os byddai yn gallu helpu a'r mater. Penderfynwyd hefyd i holi Dafydd Einion Jones ynglŷn â grantiau ar gyfer y llwybr. Dywedodd Y Cynghorydd George Smith nad oedd grantiau ar gyfer prosiectau cyfalaf i gael oddi wrth y Ramblers.

5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Nid yw'r Pwyllgor wedi cyfarfod i ddyddiad, gobeithir gwneud hynny nos Fawrth nesaf .

6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Medi.

6.2 Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod wedi derbyn yr Archwiliad Ariannol Allanol yn ôl wedi ei arwyddo, roedd bellach yn gyflawn ac ar gael i'r cyhoedd ar gais.

6.3 Diolchodd y Cyngor i'r Swyddog Ariannol am ei waith trylwyr.

7.0 GOHEBIAETH

7.1 Llythyr oddi wrth Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd ynglŷn â rhoi sylw i'r Ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar dogfen ymgynghorol ar bwerau disgresiwn i gynyddu'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi ac sy'n gofyn am ymatebion erbyn 28 Hydref 2013. Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd y byddai'r clerc yn derbyn sylwadau'r cynghorwyr erbyn diwedd y mis er mwyn eu hanfon ymlaen ar y Llywodraeth.

8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Dywedodd y Cadeirydd bod blodau o amgylch y cloc yn parhau hyd yma.

8.2 Dywedodd hefyd ei fod wedi bod yn siarad â'r Swyddog Rooksby ynglŷn â chau'r ffordd ar gyfer Sul y Cofio, cafodd ei hysbysebu nad oedd gan yr heddlu adnoddau ar gyfer gwneud hyn gan fyddai ardaloedd eraill gyda gorymdeithiau'n cael blaenoriaeth. Oherwydd hyn penderfynwyd byddai rhan fwyaf o'r gwasanaeth Coffa yn cael ei gynnal o fewn y Neuadd a'r rhan o gyflwyno'r torchau yn cael eu gwneud o flaen y gofeb.

Y Clerc i gysylltu â'r Deon Bro ar gyfer trefnu'r achlysur.

9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 C13/0954/20/LL - Dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad unllawr newydd ar gefn eiddo - Parciau Farm Griffiths Crossing, Caernarfon, LL55 1TS - **Dim Gwrthwynebiad**.

9.2 C13/0889/20/LL - Codi mordurdy dwbl ar wahan - Llain 39 Ger y Nant, Tan y Maes, Y Felinheli, LL56 4UQ - **Dim Gwrthwynebiad**

9.3 C13/0948/20/LL - Codi estyniad unllawr ar gefn eiddo - 10 Terfyn Terrace, Y Flinheli LL56 4JJ - **Dim Gwrthwynebiad**.

9.4 C13/0884/20/LL - Cais diwygiedig ar gyfer codi tŷ - 27 Brynffynnon, Y Felinheli, LL56 4SX - **Dim Gwrthwynebiad**.

9.5 C13/0950/20/LL - Codi tŷ trillawr - llain 2 Tir Ger Oaklands, Penybryn, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4YQ - **Dim Gwrthwynebiad**.

10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

10.1 Cafwyd adroddiad ynglŷn chyflwr y gwair ac ar hyn o bryd nid oedd angen ei dorri. Roedd cyflwr y beddi hefyd yn foddhaol.

10.2 Dywedodd y Daniel Williams ei fod wedi cael gair ac adeiladwr ynglŷn â'r wal gerrig, roedd yr adeiladwr yn barod iawn ei gymwynas ac am wneud y gwaith yn ddi-dâl. Roedd yn Cyngor yn gwerthfawrogi ei gyfraniad.

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

11.1 Nid oedd fwy o broblem parcio wedi dod i sylw'r Cyngor.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

12.1 Roedd y Cynghorydd George Smith wedi bod i ffwrdd dros y mis diwethaf ac nid oedd ganddo lawer o wybodaeth i rannu. Roedd ar ddeall mater o fynediad drwy wal y marina yn derbyn sylw a bod gweithgor ar gyfer lôn las Ogwen wedi ei drefnu yn fuan os oedd rhywun eisiau gwirfoddoli.

13.0 CYNGHORODD SIR

13.1 Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol.

14.0 UNRHYW FATER ARALL

14.1 Asedau'r Cyngor - er mwyn cwblhau'r asesiad risg ariannol roedd rhaid nodi eu gwerthoedd, rhoddwyd rhestr o'r asedau i'r Cynghorydd Daniel Williams ar gyfer gweithredu ar hyn.

14.2 Roedd Mainc ar gyfer y Cysgodfan Bws ger yr Eglwys er defnydd cleifion y Feddygfa byth wedi eu gosod, dywedodd y Cadeirydd y byddai yn gweithredu ar mater hwn.

14.3 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyfraniad y Cyngor tuag at Clwb peldroed ieuenctid y pentref, penderfynwyd byddai o fudd petai'r clwb yn anfon cais unigol am gymorth ariannol ar gyfer y timau oedrannau unigol pan fydd y Cyngor yn cysidro ceisiadau am gymorth arianol nesaf.

14.4 Cafwyd adroddiad bod cyflwr Cae'r ysgol yn ddrwg oherwydd y glaw.

Y Clerc i wneud ymholiadau ag Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....